



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Ministry
of Justice

Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Adroddiad Monitro Blynyddol 2021-22
i Gomisiynydd y Gymraeg

Chwefror 2023



Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Adroddiad Monitro Blynyddol 2021-22 i Gomisiynydd y Gymraeg

Chwefror 2023

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022. Hunanasesiad ydyw o sut mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi parhau i gyflawni'r ymrwymadau yn ei Chynllun Iaith Gymraeg (Cynllun y Weinyddiaeth Gyfiawnder) yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r Cynllun yn amlinellu sut mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gweithredu'r egwyddor yn Adran 5 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, sef y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Mae'n galluogi pawb sy'n cael gwasanaeth gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yng Nghymru, neu sy'n cyfathrebu â ni, i wneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, yn dibynnu ar eu dewis personol.

Mae Cynllun y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gynllun corfforaethol sy'n cwmpasu meysydd datblygu polisi, recriwtio a darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ym mhencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Mae gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder bum Asiantaeth Weithredol (EA) sy'n gyfrifol am ddarparu'r mwyafrif o'n gwasanaethau i'r cyhoedd. Mae gan bob un o'n Hasiantaethau Gweithredol eu Cynlluniau Iaith Gymraeg eu hunain sy'n sicrhau darpariaeth o wasanaethau iaith Gymraeg sydd naill ai'n gyfwerth â darpariaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder neu'n rhagori arni. Gan fod pob Asiantaeth Weithredol hefyd yn adrodd i Gomisiynydd y Gymraeg bob blwyddyn, nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei hailadrodd yma oni bai ei bod yn berthnasol i adroddiadau corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Crynodeb o'n cyflawniadau

Dyma rai o'r pethau a gyflawnwyd yn ystod 2021-22:

- Mae ymgynghoriadau allweddol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gael yn Gymraeg ar Hyb Ymgynghori'r Weinyddiaeth ar ein tudalennau GOV.UK 'corfforaethol' ac ar dudalennau 'cyffredinol' GOV.UK
- Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi hysbysebu 190 o ymgyrchoedd recriwtio staff lle cyfeirir at y Cynllun Iaith Gymraeg a lle mae'r gofynion iaith yn nodi bod y Gymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol.
- Cofnododd GLITEF 272 o achosion yn y flwyddyn adrodd lle defnyddiwyd y Gymraeg.
- Mae Pwyllgorau Cynghori'r Ynadaeth wedi parhau i annog ceisiadau gan siaradwyr Cymraeg, yn enwedig ar draws Gogledd a Gorllewin Cymru.

- Am y drydedd flwyddyn yn olynol, llwyddodd y Cynllun Cyfryngwyr Cofrestredig i dderbyn mwy o geisiadau nag erioed o'r blaen, gyda chyfryngwyr cofrestredig yn helpu mewn dros 7,400 o achosion, ac roedd 7% o'r rheini yn ardaloedd yr heddlu yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae 4 Cyfryngwr Cofrestredig sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru.
- Mae tudalen Ianio Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar ein gwefan ar gael yma: <https://www.gov.uk/government/organisations/ministry-of-justice.cy>
- Mae Grŵp Cydlynwyr Iaith Gymraeg ffisegol a rithiol ehangach y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n cwrdd ddwywaith y flwyddyn ac yn ymdrin ag ystod lawn o feysydd busnes y Weinyddiaeth wedi parhau â'i waith.
- Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn parhau i gefnogi y rhaglen Cymraeg Gwaith a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnig cyrsiau Cymraeg i staff.
- I gefnogi llwyddiant ein Prawf Effaith ar y Gymraeg ar gyfer swyddogion polisi, cyfieithodd Uned Iaith Gymraeg GLITEF a thebigword 55 o ddogfennau polisi corfforaethol.

Cynnydd wrth gyflawni'r Cynllun Gweithredu

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch ein cynnydd o ran cyflawni ein camau gweithredu perthnasol parhaus yng nghyswllt y Cynllun Iaith Gymraeg i'w gweld isod er mwyn helpu i ddangos sut rydym yn cydymffurfio.

1. Datblygu a gweithredu polisi

Meini prawf llwyddiant:

- Gwella ymwybyddiaeth staff; gyda gofynion y Cynllun Iaith yn cael eu hystyried yn y broses o gaffael a llunio polisïau.*
- Mae staff polisi, dadansoddi a chyfreithiol yn ystyried goblygiadau o ran yr iaith Gymraeg yn gyson wrth ddatblygu polisïau ac ymgynghori.*

Ymgynghoriadau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder

Yn ystod cyfnod adrodd 2021-22, cynhaliodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder nifer o ymgynghoriadau yn Gymraeg a chyhoeddi ymatebion yn Gymraeg fel a ganlyn:

Achos Cyfraith Strategol yn Erbyn Cyfranogaeth y Cyhoedd (SLAPPS).

Roedd crynodeb Cymraeg o'r Cais am Dystiolaeth ar gael (Mawrth 2022) ar hyb ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder a safle cyffredinol GOV.UK.

Adolygiad o Brawf Modd Cymorth Cyfreithiol

Roedd crynodeb Cymraeg ar gael (Mawrth 2022) ar hyb ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ar safle cyffredinol GOV.UK.

Diwygio Deddf Hawliau Dynol: Bil Hawliau Modern

Cafodd yr ymgynghoriad ei gyfieithu fel crynodeb ac yn llawn (Rhagfyr 2021) ac mae ar gael ar hyb ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ar safle cyffredinol GOV.UK.

Sicrhau cyfiawnder i Ddiodefwyr: ymgynghoriad ar wella profiadau diodefwyr o'r system gyfiawnder

Cafodd yr ymgynghoriad ei gyfieithu'n llawn (Rhagfyr 2021) ar hyb ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ar safle cyffredinol GOV.UK.

Priodasau a Phartneriaethau Sifil yn yr Awyr Agored

Cafodd yr ymgynghoriad ei gyfieithu'n llawn (Rhagfyr 2021) ar hyb ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ar safle cyffredinol GOV.UK.

Crynodeb gweithredol ac Atodiad A: Roedd crynodeb o ymateb y **Llywodraeth i'r Adolygiad Annibynnol o Gymorth Cyfreithiol Troseddol (CLAIR)** ar gael yn Gymraeg (Rhagfyr 2021) ar hyb ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder a safle cyffredinol GOV.UK.

Deddf Galluedd Meddyliol Cynllun Taliadau Bach

Cafodd yr ymgynghoriad ei gyfieithu'n llawn (Tachwedd 2021) ar hyb ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ar safle cyffredinol GOV.UK.

Datrys Anghydfodau yng Nghymru a Lloegr Cais am Dystiolaeth

Cafodd yr Alwad am Dystiolaeth hon ei chyfieithu'n llawn (Awst 2021) ar hyb ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ar safle cyffredinol GOV.UK.

Moderneiddio Atwrneiaethau Arhosol

Cafodd yr ymgynghoriad ei gyfieithu'n llawn (Gorffennaf 2021) ar hyb ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ar safle cyffredinol GOV.UK.

Y Gymraeg yn nheulu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder: Dydd Gŵyl Dewi, 1 Mawrth 2022

I ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, cynhaliodd Cydlynwyr Iaith Gymraeg corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ddigwyddiad ar-lein ar draws teulu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Roedd nifer dda yn bresennol ac roedd yn cynnwys agweddau gwahanol ar yr iaith Gymraeg gan ein Hasiantaethau Gweithredol gyda siaradwyr o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, GLIThEM a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi. Roedd y digwyddiad yn ennyn llawer o ddiddordeb ac yn cynnwys ffeithiau diddorol am yr iaith Gymraeg fel iaith Frythonig o darddiad Celtaidd Prydeinig; wedi cael ei siarad ym Mhrydain ymhell cyn y goncwest Rufeinig; a bod tafodieithoedd Cymreig yn cynnwys tafodiaith Patagonia yn dilyn ymfudo i'r Ariannin yn y 1850au lle mae 5000 o siaradwyr Cymraeg heddiw.

Siaradwyr Cymraeg

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, roedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd yn un o chwe adran gyntaf y Llywodraeth i ymrwymo'n gorfforaethol i [raglen Cymraeg Gwaith](#) Llywodraeth Cymru sy'n ceisio gwella sgiliau Cymraeg ein staff yng Nghymru. Gan adeiladu ar y ffaith bod GLITEF wedi mabwysiadu Cymraeg Gwaith yn gynnar, rydym yn cydnabod pwysigrwydd integreiddio'r Gymraeg yng ngweithgareddau busnes y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n effeithio ar Gymru o ran ein swyddogaethau corfforaethol yn ogystal â'r gwasanaethau gweithredol a ddarperir gennym.

Ar ddiwedd cyfnod yr adroddiad hwn, fe ddechreuon ni drafodaethau mewnol yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar y ffordd orau o gasglu sgiliau siarad Cymraeg ein staff . Byddwn yn parhau ac yn cofnodi'r cynnydd ar y gwaith hwn yn ein Hadroddiad Monitro Blynnyddol nesaf.

Rydym hefyd yn hyrwyddo Rhwydwaith Cymraeg y Gwasanaeth Sifil. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â cslocalcymruwales@cabinetoffice.gov.uk Mae'n cydnabod y gall cwrdd â tharged

Llywodraeth Cymru o 1M o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn ddefnyddiol gynnwys adnewyddu'r cysylltiad rhwng y Gymraeg a'r gweithle.

2. Recriwtio

Meini prawf llwyddiant:

- a) Mae system effeithiol ar waith i fonitro'r modd y mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn recriwtio staff ac yn penodi'r farnwriaeth er mwyn gwneud yn siŵr bod yr ymrwymadau yn y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael eu bodloni.
- b) Mae achosion llys yn cael eu cynnal yn Gymraeg pan fydd angen.
- c) Mae agwedd gyson at y Gymraeg wrth recriwtio ynadon a barnwyr.
- d) Mae system recriwtio newydd yn cydymffurfio â gofynion Comisiynydd y Gymraeg a deddfwriaeth.

Staff

Meini prawf llwyddiant: a) Mae system effeithiol ar waith i fonitro'r modd y mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn recriwtio staff ac yn penodi barnwyr er mwyn gwneud yn siŵr bod yr ymrwymadau yn y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael eu bodloni. d) Mae'r system recriwtio newydd yn cydymffurfio â gofynion a deddfwriaeth Comisiynydd y Gymraeg.

Rydym wedi hysbysebu 190 o ymgyrchoedd lle cyfeirir at y Cynllun Iaith Gymraeg a lle mae'r gofynion iaith yn nodi bod y Gymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol. Mae 411 o swyddi wedi cael eu llenwi yn yr ymgyrchoedd hyn lle mae'r Gymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol. Rydym wedi penodi 55 o siaradwyr Cymraeg i swyddi lle'r oedd gofyn am y Gymraeg.

Achosion llys

Meini prawf llwyddiant: b) Mae achosion llys yn cael eu cynnal yn effeithiol yn Gymraeg pan fydd angen.

Drwy fynd ati'n effeithiol i ddod o hyd i farnwyr ac ynadon Cymraeg eu hiaith, a'u recriwtio ar ôl hynny, gellir cynnal achosion llys yn Gymraeg pan fydd angen. Yn ystod y flwyddyn adrodd, cofnododd GLITEF 272 o achosion lle defnyddiwyd y Gymraeg. Mae'r cyfanswm wedi'i ddadansoddi fel a ganlyn: Llysoedd y Goron 8, dim presenoldeb yn y Llys Ynadon 135, presenoldeb yn y Llys Ynadon 41, Llysoedd Sirol 86, Tribiwnlysoedd 2, Y Llys Apêl 0.

Y farnwriaeth

Meini prawf llwyddiant: c) Agwedd gyson at y Gymraeg wrth recriwtio ynadon a barnwyr.

Roedd yr ymarfer dethol canlynol yn nodi swyddi gwag yng Nghymru a oedd â gofyniad hanfodol o ran y Gymraeg yn ogystal â phrofi dealltwriaeth yr ymgeiswyr o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru:

- **Dirprwy Farnwr Rhanbarth:** Roedd y Gymraeg yn ofyniad hanfodol ar gyfer un swydd yn yr ymarfer dethol ar gyfer Dirprwy Farnwr Rhanbarth. Lanswyd yr ymarfer cenedlaethol ar 14 Ebrill 2020 gyda 150 o swyddi gwag ledled Cymru a Lloegr. Argymhellwyd 136 o ymgeiswyr, ac ni argymhellwyd bod unrhyw ymgeiswyr yn addas i'w penodi ar gyfer y swydd Gymraeg.
- **Cofiadur:** Roedd y Gymraeg yn ofyniad hanfodol ar gyfer tair swydd yn yr ymarfer dethol ar gyfer Cofiadur. Lanswyd yr ymarfer cenedlaethol ar 02 Medi 2020 gyda 164 o swyddi gwag

ledled Cymru a Lloegr. Cafodd 164 o ymgeiswyr eu hargymell ac argymhellwyd bod 16 o ymgeiswyr yn addas ar gyfer swyddi yng Nghymru ac argymhellwyd bod un ymgeisydd yn addas i'w benodi ar gyfer y swydd gyda'r Gymraeg yn hanfodol.

- **Barnwr Rhanbarth:** Roedd y Gymraeg yn ofyniad hanfodol ar gyfer un swydd yn yr ymarfer dethol ar gyfer Barnwr Rhanbarth. Lansiwyd yr ymarfer cenedlaethol ar 23 Medi 2020 gyda 106 o swyddi gwag ledled Cymru a Lloegr. Argymhellwyd 57 o ymgeiswyr yn gyffredinol, gyda saith ymgeisydd yn cael eu hargymell fel unigolyn addas ar gyfer swyddi yng Nghymru. Mae lleoli ymgeiswyr yn benderfyniad i'r farnwriaeth leol.

Canfu'r ymarferion dethol canlynol swyddi gwag yng Nghymru nad oedd â gofynion o ran y Gymraeg, ond a oedd yn profi dealltwriaeth ymgeiswyr o weinyddiaeth cyfiawnder yng Nghymru:

- **Aelodau Cyfreithiol sy'n Derbyn Ffi Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru:** Lansiwyd yr ymarfer ar gyfer Aelodau Cyfreithiol sy'n derbyn Ffi ar gyfer Tribiwnlys Iechyd Meddwl Cymru ar 20 Chwefror 2020 gyda 20 swydd wag. Cafodd pob ymgeisydd eu hasesu ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Argymhellwyd bod 19 o ymgeiswyr yn addas ar gyfer eu penodi i swyddi yng Nghymru.
- **Uwch Farnwr Cylchdaith, Barnwr Preswyl (Caerdydd):** Lansiwyd yr ymarfer ar gyfer Uwch Farnwr Cylchdaith, Barnwr Preswyl (Caerdydd) ar 22 Mehefin 2021 gydag un swydd wag. Cafodd pob ymgeisydd eu hasesu ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Argymhellwyd bod un ymgeisydd yn addas ar gyfer eu penodi i swyddi yng Nghymru.
- **Barnwr Tribiwnlys yr Haen Gyntaf sy'n Derbyn Ffi a Barnwr y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth sy'n Derbyn Ffi (Cymru a Lloegr):** Cafodd yr ymarfer ar gyfer Barnwr y Tribiwnlys Haen Gyntaf sy'n Derbyn Ffi a Barnwr y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth sy'n Derbyn Ffi (Cymru a Lloegr) ei lansio ar 14 Ebrill 2020 gyda 374 o swyddi gwag. Cafodd yr ymgeiswyr hynny a oedd â diddordeb mewn swydd yng Nghymru eu hasesu ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Yn gyffredinol, argymhellwyd bod 207 o ymgeiswyr yn cael eu penodi i swyddi Barnwyr Tribiwnlys Haen Gyntaf sy'n Derbyn Ffi, gyda 25 o ymgeiswyr yn cael eu hargymell yn addas ar gyfer eu penodi i swyddi yng Nghymru. Argymhellwyd bod 167 o ymgeiswyr yn cael eu penodi i swydd Barnwr Tribiwnlys Cyflogaeth sy'n Derbyn Ffi (Cymru a Lloegr), gydag 18 o ymgeiswyr yn cael eu hargymell yn addas ar gyfer eu penodi i swyddi yng Nghymru.
- **Dirprwy Farnwr Rhanbarth (Llys Ynadon):** Lansiwyd yr ymarfer cenedlaethol ar gyfer Dirprwy Farnwr Rhanbarth ar 2 Mawrth 2021 gyda 55 o swyddi gwag ledled Cymru a Lloegr. Cafodd yr ymgeiswyr hynny a oedd â diddordeb mewn swydd yng Nghymru eu hasesu ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Argymhellwyd 55 o ymgeiswyr, ac argymhellwyd bod 3 ymgeisydd yn addas ar gyfer eu penodi i swyddi yng Nghymru.
- **Barnwr Cylchdaith:** Lansiwyd yr ymarfer cenedlaethol ar gyfer Barnwr Cylchdaith ar 17 Mai 2021 gyda 78 o swyddi gwag ledled Cymru a Lloegr. Cafodd yr ymgeiswyr hynny a oedd â diddordeb mewn swydd yng Nghymru eu hasesu ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Argymhellwyd 62 o ymgeiswyr, ac argymhellwyd bod naw ymgeisydd yn addas ar gyfer eu penodi i swyddi yng Nghymru.

D.S. Er bod ymarferion dethol fel arfer wedi dechrau cyn y flwyddyn adrodd, rhoddwyd gwybod i'r Swyddfa Farnwrol am ganlyniad yr ymarferion yn ystod y flwyddyn adrodd. Mae hyn yn adlewyrchu'r dull gweithredu a ddilyniir yn Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Penodiadau Barnwrol.

Y Coleg Barnwrol

Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd y Coleg Barnwrol ei strategaeth ar gyfer 2021-25 sy'n gosod yr uchelgais ar gyfer y Coleg dros y pedair blynedd nesaf. Mae gan Bwyllgor Hyfforddi Cymru (WTC) rôl allweddol yn y gwaith o ddatblygu amcanion strategol y Coleg i'r graddau y maent yn ymwneud â hyfforddi barnwyr sy'n eistedd yng Nghymru a dilyniant hyfforddiant i gefnogi defnydd o'r Gymraeg o fewn y system gyfiawnder. Mae gan aelodau WTC o'r Llysoedd ac Awdurdodaethau Tribiwnlysoedd hefyd seddau ar y Grŵp Iaith Gymraeg Traws-swyddogaethol, sy'n bwydo i Bwyllgor Sefydlog yr Arglwydd Ganghellor ar yr Iaith Gymraeg (SCOWL). Cylch gwaith SCOWL yw gwella sgiliau Cymraeg ymarferwyr y sector cyfiawnder a chydlynu sut mae dewisiadau iaith yn cael eu cofnodi a'u trosglwyddo o un asiantaeth i'r llall. Mae'r gweithgareddau hyn yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru ar filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, gan gynnwys y galw cynyddol a ragwelir am wasanaethau Cymraeg yn y sector cyfiawnder.

Mae Mr Ustus Griffiths wedi cadeirio Pwyllgor Hyfforddiant Cymru ers iddo gael ei benodi ym mis Chwefror 2021. Ef hefyd yw Cadeirydd Pwyllgor Sefydlog yr Arglwydd Ganghellor dros yr Iaith Gymraeg, a Barnwr Llywyddol Cymru.

Ym mis Mai 2021, ymddangosodd yr Arglwydd Brif Ustus gerbron y Pwyllgor Cyfansoddiad, lle cymeradwyodd Bwyllgor Hyfforddi Cymru. Yn yr anerchiad hwn, nododd fod y Pwyllgor yn ymdrin â holl faterion cyfraith Cymru mewn dwy elfen: hyfforddiant yn y gyfraith sy'n wahanol yng Nghymru a hyfforddiant i wella hyder yn y defnydd o'r Gymraeg yn y llys.

Cyhoeddwyd e-gylchlythyr cyntaf Coleg Barnwrol Cymru 2022 ym mis Chwefror yn Gymraeg ac yn Saesneg, gyda'r cynnwys yn union yr un fath yn y ddwy iaith. Fe'i dosbarthwyd i aelodau'r farnwriaeth ar ffurf electronig, gan ddarparu crynodebau o newidiadau perthnasol i ddeddfau Cymru ym maes troseddol a thai. Roedd y llythyr hefyd yn cynnwys erthyglau gan gyfranwyr gwadd y Farnwriaeth ar eistedd yng Nghymru yn ystod y pandemig ac ar hanes cyfreithiol Cymru.

Eleni, un o brif gyfrifoldebau'r Pwyllgor oedd paratoi ar gyfer gweithredu Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, wrth ddatblygu deunyddiau hyfforddi i wella sgiliau'r Farnwriaeth sy'n gwrando'r achosion hyn unwaith y daw'r Ddeddf i rym cyn bo hir. Paratowyd deunyddiau ar gyfer pecyn dysgu cyfunol sy'n cynnwys podlediadau, fideos a deunyddiau cyfeirio eraill sydd ar gael i ddeiliaid swyddi barnwrol yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae'r Seminar Iaith Gymraeg yn ddigwyddiad gan y Coleg Barnwrol a gynhelir ddwywaith y flwyddyn i gefnogi barnwyr o ran eu hyder i gynnal gwrandawriadau yn y Gymraeg. Mae'r digwyddiad hwn yn gweithredu Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (Adran 5) i gefnogi'r Farnwriaeth sy'n eistedd yng Nghymru i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, yn ôl eu dewis personol. Cynhaliwyd y digwyddiad undydd yn Llandudno, Gogledd Cymru, ar 4 Mawrth 2022 ac roedd ystod eang o ddeiliaid swyddi barnwrol o'r Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd yn bresennol. Y nod oedd darparu arweiniad a hyfforddiant arbenigol i wella a chyfoethogi profiad y Farnwriaeth o wneud datganiadau a dyfarniadau ffurfiol a rhyngweithio â holl ddefnyddwyr y llys yn Gymraeg. Roedd y seminar hefyd yn ceisio codi ymwybyddiaeth o effaith deddfwriaeth Llywodraeth Cymru ar waith beunyddiol deiliaid swyddi barnwrol sy'n eistedd yng Nghymru a chodi ymwybyddiaeth o sut a ble y gellir cael gafael ar ddatblygiadau yn neddfwriaeth Cymru.

Un prif fwrriad oedd rhoi cyfle i ddeiliaid swyddi barnwrol yng Nghymru drafod a rhannu eu profiadau a'u harferion gorau wrth gynnal treialon a gwrandawriadau yn Gymraeg a hyrwyddo ymwybyddiaeth o newidiadau diweddar i Reolau'r Llys a'r Tribiwnlys perthnasol sy'n ymwneud â defnyddio'r Gymraeg mewn achosion, gan gynnwys cynnal gwrandawriadau o bell. Roedd seminar 2022 yn unigryw, oherwydd yn ogystal â sesiynau sy'n cael eu cynnal ar gyfer barnwyr Cymraeg

eu hiaith sy'n gallu cynnal achosion yn Gymraeg, roedd ganddo hefyd grŵp ar wahân o farnwyr oedd yn bresennol ac sydd â rolau arwain neu sy'n eistedd mewn ardaloedd lle mae'n debygol y bydd mwy o alw am ddefnyddio'r Gymraeg. Cafwyd cyflwyniad ar yr amrywiaeth o adnoddau digidol sydd ar gael i'r Farnwriaeth i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg wrth farnu a sgwrs ar effaith dewis iaith ar degwch a dilysrwydd yn y seminar hefyd. Bydd y Coleg yn cynnal y digwyddiad nesaf ym mlwyddyn hyfforddi 2023-2024.

Mae cyflwyniad ar ran Pwyllgor Hyfforddi Cymru i Gadeirydd y Tribunals Journal, wedi ei gofnod yn rhifyn mis Mawrth 2022 o'r cyfnodolyn. Roedd y cyflwyniad yn ymwneud â chais i siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn gweithio yng Nghymru i nodi pwy ydynt. Bydd cronfa ddata'r ymatebion yn cael ei rheoli gan yr Uned Iaith Gymraeg. Ar ben hynny, ym mis Mawrth bu GLITEF yn cydlynu a hyrwyddodd y Coleg Hyfforddiant Cymraeg i ynadon a chynghorwyr cyfreithiol gan roi cymorth i 100 o gynadleddwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn y system gyfiawnder.

Pwyllgorau Cynghori a phenodiadau i'r Ynadaeth

Mae'r diweddariad hwn yn ceisio amlinellu'r ganran bresennol o ynadon sy'n siarad Cymraeg a'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael ag unrhyw batrwm sy'n datblygu. Yn anffodus, gwelwyd tuedd gynyddol o ostyngiad yn nifer y ceisiadau i fod yn ynadon o blith siaradwyr Cymraeg. Ar yr un pryd, mae nifer y ceisiadau i ymuno â'r ynadaeth wedi aros yn gyson, felly nid oes prinder ynadon yng Nghymru. Mae hyn wedi effeithio ar ganran gyffredinol yr Ynadon sy'n siarad Cymraeg.

Canran y siaradwyr Cymraeg Tachwedd 2021

Sir Drefaldwyn	8%
Ceredigion a Sir Benfro	9%
Sir Gaerfyrddin	43%
Canol Gogledd Cymru	14%
Gogledd Orllewin Cymru	64%
Gogledd Ddwyrain Cymru	12%
Caerdydd	3%
Canolbarth Cymru	4%
Gwent	5%
Gorllewin Morgannwg	4%

Mae Pwyllgor Cynghori'r Arglwydd Ganghellor wedi parhau i annog ceisiadau gan siaradwyr Cymraeg, yn enwedig ar draws Gogledd a Gorllewin Cymru. Mae hyn wedi bod drwy gynlluniau lleol fel rhith-nosweithiau agored a chyflwyniadau gan ynadon. Mae aelodau Pwyllgor Sefydlog yr Arglwydd Ganghellor ar yr Iaith Gymraeg wedi bod yn ymwneud â'r cyfryngau lleol.

Ym mis Ebrill 2022 penodwyd 5 ynad sy'n siarad Cymraeg (4 Troseddol, 1 Teulu). Roedd ceisiadau Cymraeg eu hiaith yn aros am gymeradwyaeth gan yr Uwch Farnwr Llywyddol ar gyfer 2022/23 (2 Troseddol, 2 Teulu). Dan y broses Oed Ymddeol Gorfodol, mae 1 Ynad sy'n siarad Cymraeg wedi cael ei argymhell i'w ailbenodi.

Bu'r pwyllgor cynghori yn gweithio gyda'r Swyddfa Farnwrol i ddatblygu deunydd marchnata newydd gan gynnwys taflenni a phosteri yn Gymraeg. Mae'r pwyllgor yn ymwneud â'r gwaith parhaus o greu'r broses ymgeisio ar-lein newydd sydd ar gael yn Gymraeg.

https://magistrates.judiciary.uk/cymraeg/?sType=magistrates_website

Gweithiodd y pwyllgor cynghori mewn partneriaeth â'r Swyddfa Farnwrol i ddatblygu hysbysiad i'r wasg wedi'i dargedu'n benodol at ymgeiswyr Cymraeg eu hiaith ar gyfer yr ymgyrch nesaf. Lansiodd yr ymgyrch recriwtio nesaf yng Nghymru ar 1 Hydref 2022 yn unol â'r ymgyrch genedlaethol a ddaeth i ben ar 31 Hydref 2022.

Mae pwyllgor cynghori Cymru yn recriwtio aelodau nad ydynt yn ynadon ar hyn o bryd – h.y. aelodau o'r cyhoedd sy'n cyfweld ymgeiswyr ar gyfer yr ynadaeth. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â HMCTSWalesAdvisory@justice.gov.uk

Cyfryngwyr Cofrestredig

Drwy gydol 2021-22, parhaodd y Cynllun Cyfryngwyr Tystion (WIS) i fodloni'r galw cynyddol am Gyfryngwyr Cofrestredig (RI). Am y drydedd flwyddyn yn olynol, llwyddodd y cynllun i dderbyn mwy o geisiadau nag erioed o'r blaen, gyda chyfryngwyr cofrestredig yn helpu mewn dros 7,400 o achosion, ac roedd 7% o'r rheini yn ardaloedd yr heddlu yng Nghymru.

Mae cyfryngwyr cofrestredig sy'n siarad Cymraeg yn parhau i weithredu ar draws pob PFA yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae 4 cyfryngwr cofrestredig sy'n siarad Cymraeg (gydag 1 cyfryngwr cofrestredig sy'n siarad Cymraeg wedi'i benodi ym mis Gorffennaf 2021), a 52 cyfryngwr cofrestredig sy'n derbyn achosion yng Nghymru. Mae'r galw am gyfryngwyr cofrestredig yng Nghymru yn cael ei fonitro fel mater o drefn ac mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cymryd camau i sicrhau bod ceisiadau penodol am gyfryngwyr cofrestredig sy'n siarad Cymraeg yn cael eu cofnodi a bod data am y defnydd o gyfryngwyr cofrestredig sy'n siarad Cymraeg ar gael ar gais.

Derbyniodd yr WIS 519 cais am gyfryngwyr cofrestredig yng Nghymru yn 2021/22, gyda 496 (96%) o'r ceisiadau hyn wedi'u cyfateb yn llwyddiannus. Ni chafodd 11 cais (2%) eu cyfateb a chafodd 12 (2%) eu canslo. Gwnaed 3 cais yn benodol ar gyfer cyfryngwyr cofrestredig sy'n siarad Cymraeg, cafodd 1 o'r ceisiadau hyn eu canslo gan Wasanaeth Erlyn y Goron (oherwydd nad oedd angen y cyfryngwyr cofrestredig), a chafodd y 2 arall eu cyfateb yn llwyddiannus i gyfryngwyr cofrestredig sy'n siarad Cymraeg.

Mae strategaeth recriwtio WIS Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn parhau i dargedu rhanbarthau lle mae ein tystiolaeth yn dangos bod angen cyfryngwyr cofrestredig fwyaf. Mae sgiliau Cymraeg yn cael eu hystyried ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod anghenion dioddefwyr a thystion sy'n siarad Cymraeg yn cael eu diwallu.

3. Darparu gwasanaethau i'r cyhoedd

Gohebiaeth

Meini prawf llwyddiant:

- a) Dim cwynion gan gwsmeriaid yng Nghymru ynglŷn â diffyg eglurder o ran ymdrin â gohebiaeth Gymraeg.
- b) Dogfennau'n cael eu cyfieithu i'r Gymraeg yn briodol.
- c) Gohebiaeth Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg o fewn yr un amserlenni ag unrhyw ohebiaeth arall

Yn ystod cyfnod adrodd 2021-2022, ni dderbyniodd Tîm Cymorth a Gohebiaeth Gweinidogol y Weinyddiaeth Gyfiawnder yr un darn o ohebiaeth yn Gymraeg, naill ai ar-lein nac ar ffurf copi caled. Mae swyddogion yn parhau i fonitro lefelau'r ohebiaeth Gymraeg a dderbynnir gan y Tîm Cymorth a Gohebiaeth Gweinidogol, ac mae staff wedi cael eu hatgoffa i gadw cofnod o unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg ar y gronfa ddata. Mae hyn yn cynnwys copïau caled a anfonir drwy'r post neu ohebiaeth electronig dros e-bost. Mae staff gohebiaeth ar draws yr adran wedi cael eu hatgoffa hefyd bod angen ateb unrhyw ohebiaeth sy'n dod i law yn y Gymraeg yn y Gymraeg.

Galwadau ffôn

Meini prawf llwyddiant:

Bydd galwadau ffôn gan siaradwyr Cymraeg yn cael eu hateb yn Gymraeg yn y cyswllt cyntaf.

Y Tîm Ymholiadau Cyhoeddus (sy'n rhan o ganolfan alw Cydwasanaethau ehangach yn Ne Cymru) sy'n delio â Llinell Ymholiadau Cyhoeddus (PEL) y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ar gyfer galwadau gan bobl sy'n galw'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn unig. Daw'r galwadau'n bennaf gan bobl sydd am gael eu trosglwyddo i rywun yn y Pencadlys yn 102 Petty France Llundain, fel GLITEF, yr Uned Crwneriaid neu swyddfa'r wasg, er enghraifft. Y cyhoedd neu randdeiliaid allanol, gan gynnwys adrannau eraill y llywodraeth, sy'n gwneud y galwadau hyn fel arfer.

Nid yw'r gweithwyr ffôn ar switsfwrdd y Llinell PEL yn rhoi unrhyw gyngor na gwybodaeth am y Weinyddiaeth Gyfiawnder, dim ond trosglwyddo galwadau i'r person priodol neu roi manylion e-bost ar gyfer blychau post. Rhif Llundain yw rhif y galwadau sy'n cyrraedd tîm y Llinell Ymholiadau Cyhoeddus. Nid yw'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn hysbysebu unrhyw ddewisiadau iaith i'r rheini sy'n galw; fodd bynnag, os bydd rhywun yn dymuno siarad Cymraeg yn unig, mae'r tîm yn gallu delio â'r cais oherwydd bod gan dîm y ganolfan alw Cydwasanaethau 20 siaradwr Cymraeg rhugl.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, nid oes galwr wedi ceisio cyfathrebu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn Gymraeg. Hefyd, yn ystod y cyfnod hwn, ni dderbyniodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder unrhyw gwynion am y ffaith nad oes dewis Cymraeg mwy ffurfiol.

Digwyddiadau

Meini prawf llwyddiant:

Dim cwynion ynghylch methu â hwyluso'r defnydd o Gymraeg neu ddarparu cyfieithiadau Cymraeg mewn digwyddiadau yng Nghymru.

Nid yw'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cadw cofnodion canolog o ddigwyddiadau a gynhelir ar draws y busnes ynghylch cyfarfodydd yng Nghymru lle'r oedd trefniadau penodol i hwyluso defnydd o'r Gymraeg. Ceir arweiniad ar fewnwyd y Weinyddiaeth Gyfiawnder i helpu staff gyda chyfleusterau ac anghenion cyfieithu ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau sy'n cynnwys y cyhoedd yng Nghymru.

Hunaniaeth gorfforaethol

Meini prawf llwyddiant:

Cysondeb yn y ffordd y mae'r iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, mae Tîm Cyfathrebu Corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi bod yn gweithredu fel arfer o ran gweithgareddau sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Mae meysydd busnes y Weinyddiaeth Gyfiawnder y mae angen eu cyfieithu yn Gymraeg yn cael eu cyfeirio at Uned Iaith Gymraeg GLITEF neu thebigword gan dîm dylunio canolog y Weinyddiaeth - design102. Mae canllawiau brand y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn rhoi cyngor ar ddefnyddio fersiynau Cymraeg a dwyieithog logo'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Cyhoeddiadau a ffurflenni

Meini prawf llwyddiant:

a) *Cysondeb yn y ffordd y mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio.*

b) *Bydd pob dogfen sy'n cael ei llunio yn Gymraeg ac yn Saesneg yn cael ei llunio i'r un safon, gan ddilyn yr un amserlen pan fo'r dyddiadau cau yn caniatáu hynny.*

Pan fydd tîm dylunio'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, design102, yn llunio dogfen Saesneg sydd angen ei chyfieithu i'r Gymraeg, bydd yn rhoi ffeiliau sy'n cynnwys y gwaith celf i Uned Iaith Gymraeg GLITEF er mwyn iddynt allu sicrhau bod fformat y fersiwn Gymraeg a'r Saesneg yr un fath. Gan fod deunyddiau'n aml yn hwyr yn cael eu cymeradwyo, a newidiadau munud olaf yn cael eu gwneud i'r dogfennau Saesneg munud neu fersiynau newydd yn cael eu cyflwyno, nid yw'n bosibl bob amser creu'r fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg gyda'i gilydd. Serch hynny, bydd y fersiwn Gymraeg yn cael ei chyhoeddi cyn gynted ag y bo modd ar ôl y fersiwn Saesneg (ac yn bendant cyn pen 10 diwrnod gwaith o dan ein Cynllun Iaith). Bydd pob dogfen sy'n cael ei llunio yn Gymraeg ac yn Saesneg yn cael ei llunio i'r un safon.

Uned Iaith Gymraeg GLIThEM

Uned Iaith Gymraeg GLITEF sy'n gwneud y rhan fwyaf o'n cyfieithiadau corfforaethol. Rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 cyfieithodd yr Uned a [thebigword](#) 55 o ddogfennau corfforaethol ar gyfer Pencadlys y Weinyddiaeth Gyfiawnder am gost o £22,153.

Datganiadau i'r wasg, ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd a hysbysebu, hysbysiadau swyddogol a chyhoeddus

Meini prawf llwyddiant:

Cysondeb yn y ffordd y mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio.

Mae GLITEM yn berchen ar lawer o'n cynnwys ar GOV.UK. Mae GLITEF yn cyfieithu popeth sy'n berthnasol i Gymru neu'r iaith Gymraeg, er enghraifft newyddion, blogiau a chanllawiau neu gyhoeddiadau lle mae angen gan ddefnyddwyr.

Roedd datganiadau i'r wasg GLITEF a gyfieithwyd i'r Gymraeg yn cynnwys:

"GLITEF yn lansio ymgyngoriad ar gynllun iaith Gymraeg" (1 Mawrth 2022):

Lansiodd GLITEF ymgyngoriad newydd i adolygu ei Gynllun Iaith Gymraeg, a oedd ar agor i dderbyn safbwyntiau tan 8 Ebrill 2022.

Roedd datganiadau i'r wasg Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a gyfieithwyd i'r Gymraeg yn cynnwys:

"Y Weinyddiaeth Gyfiawnder i symud 500 o swyddi i Gymru" (9 Chwefror 2022)

Cyhoeddodd hyn bod tua 500 o swyddi'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn symud i Gymru fel rhan o'r rhaglen *Places for Growth* er mwyn codi'r gwastad mewn cymunedau ledled y DU.

Gwasanaethau digidol, gwefan a gwybodaeth

Meini prawf llwyddiant:

- a) *Llai o gwynion yn ymwneud â diffyg deunydd Cymraeg ar gyfer dogfennau corfforaethol perthnasol.*
- b) *Argaeledd deunydd Cymraeg priodol ar gyfer ein polisiau a'n cyhoeddiadau.*
- c) *Systemau TG y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cynnwys galluedd Cymraeg.*
- d) *Paratoi fersiwn Gymraeg o'n tudalen hafan ar GOV.UK.*

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gyfrifol am benderfynu pa gynnwys 'adrannol a pholisi' sydd angen ei gyfieithu ar GOV.UK; trefnu cyfieithu o ansawdd uchel; a sicrhau bod y cynnwys Cymraeg yn gywir ac yn gyfoes.

Mae tudalen lanio Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar ein gwefan ar gael yma:
<https://www.gov.uk/government/organisations/ministry-of-justice.cy>

Mae ein hafan Gymraeg ar GOV.UK gyda'n tudalennau 'corfforaethol' cysylltiedig, sydd hefyd wedi cael eu cyfieithu i'r Gymraeg.

Rydym wedi gwneud newid yn ddiweddar o ran sut rydym yn rheoli cyhoeddiadau wedi'u cyfieithu ar GOV.UK – mae hyn wedi golygu ein bod yn llwytho cyfieithiadau i fyny mewn ffordd wahanol, gan eu gwneud yn fwy hygyrch ac yn haws dod o hyd iddynt. Yn fyr, yn lle ychwanegu dogfen Gymraeg at dudalen Saesneg o gynnwys, bydd gan y fersiwn Gymraeg ei thudalen ei hun. Dyma rai enghreifftiau sy'n dangos fersiwn Gymraeg lawn o'r dudalen gyda'r dogfennau Cymraeg a Saesneg arni. Yn y gorffennol, dim ond ar nifer fach o dempledi yr oedd y swyddogaeth hon ar gael, ond mae bellach ar gael ar gyhoeddiadau.

Mae enghreifftiau o gyhoeddiadau sydd ar gael yn Gymraeg yn cynnwys:

Ffurflen Paratoi ar gyfer Treial Effeithiol yn y Llys Ieuencid a nodiadau canllaw (Mehefin 2021)
[Preparation for trial in a magistrates' court - GOV.UK \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk)

Adroddiad canol y grant Cymorth Cyfreithiol ar gyfer Ymglyfreithwyr Drostynt eu Hunain (Ionawr 2022)
[Adroddiad canol y grant Cymorth Cyfreithiol ar gyfer Ymglyfreithwyr Drostynt eu Hunain - GOV.UK \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk)

Mae gennym hefyd frand iaith Gymraeg ar ddeunyddiau ysgrifennu, adroddiadau, logos a chyfathrebiadau electronig i'w ddefnyddio yn ôl yr angen.

Mae Technoleg y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn arddel y safbwynt canlynol ar ddefnyddio'r Gymraeg:

- wrth inni ddatblygu a chyflwyno cynnyrch a systemau TG newydd neu ddiweddarau hen rai, byddwn yn asesu'r gofynion ieithyddol yng nghyswllt gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd yng Nghymru;
- byddwn yn hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg cyn belled ag y bo'n briodol i'r amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol;
- pan fyddwn yn datblygu neu'n caffael systemau Gwasanaeth Technoleg y Weinyddiaeth Gyfiawnder, byddwn yn ystyried Canllawiau a Safonau Comisiynydd y Gymraeg ar Feddalwedd Dwyieithog;
- y maes busnes perthnasol sy'n gyfrifol am gynnwys llwyfannau TG (yn hytrach na'r dechnoleg gysylltiedig).

Mae'r egwyddorion hyn yn berthnasol pryd bynnag y bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn symud at gcontractau newydd. Mae Gwasanaeth Digidol a Thechnoleg y Weinyddiaeth bob amser yn barod i ystyried unrhyw ofynion penodol sydd gan yr Uned Iaith Gymraeg.

Gwasanaethau a ddarperir ar ran y Weinyddiaeth Gyfiawnder gan bartïon eraill

Meini prawf llwyddiant:

Bod staff yn ymwybodol o'r trefniadau i gynnwys ystyriaeth o'r Gymraeg mewn cytundebau contract â thrydydd partiïon.

Mae telerau ac amodau contract safonol cyfredol y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cynnwys cymalau sy'n mynnu bod cyflenwyr yn cydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a'r Cynllun Iaith Gymraeg 'yn union fel petai ef ei hun yw'r Awdurdod'.

Gwasanaethau Llety Cymunedol Haen 2

Mae'r gwasanaeth ar gyfer pobl sy'n cael eu rhyddhau ar fechnïaeth a throseddwyr sy'n cael eu rhyddhau o'r ddalffa ac sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd angenrheidiol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rheini sy'n cael eu rhyddhau ar Gyrrfwy Cadw yn y Cartref (HDC) a Charfan Trwydded Ychwanegol (ALC).

Mae gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg wedi'u hymgorffori o fewn telerau ac amodau'r contract ac mae'r Darparwr yn gyfrifol am hyrwyddo'r gwasanaethau yn Gymraeg neu'n Saesneg i breswylwyr CAS2.

Ymgysylltu â Phobl ar Brawf (EPOP)

Mae'r Gwasanaeth Prawf yn chwilio am ddarparwr i feithrin gallu, cyfle a chymhelliant staff y gwasanaeth prawf i ymgysylltu'n ehangach â phobl sydd ar brawf, er mwyn galluogi pobl sydd ar brawf i ddylanwadu a chwarae mwy o ran yn y gwaith o gynllunio, datblygu, darparu ac adolygu gwasanaethau. Ni fydd y Darparwr yn gyfrifol am ddarparu sesiynau ymgysylltu uniongyrchol gyda phobl ar brawf, gan mai Personél y Gwasanaeth Prawf fydd yn bennaf gyfrifol am hyn yn y contract newydd.

Mae'r Fanyleb yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyflenwr gynhyrchu Cynllun Gweithredu EPOP ar gyfer pob rhanbarth Gwasanaeth Prawf, gan gynnwys Cymru. Nid yw hyn o reidrydd yn golygu y bydd y cyflenwr yn darparu gwasanaethau yng Nghymru oherwydd efallai na fydd yn angenrheidiol yn dibynnu ar y camau y cytunwyd arnynt rhwng y darparwr a Gwasanaeth Prawf Cymru yn ystod y broses weithredu. Fodd bynnag, mae'r gofyniad canlynol wedi'i gynnwys yn y fanyleb i sicrhau y cydymffurfir â Chynllun Iaith Gymraeg 2018 lle bo hynny'n briodol.

Os a phan fydd ymgysylltu uniongyrchol â phobl sydd ar brawf yn digwydd, rhaid i'r darparwr:

1. Ymgysylltu mewn iaith neu fformat y mae pob unigolyn yn gallu ei ddeall.
2. Os yw'r Gwasanaethau i gael eu darparu yng Nghymru, rhaid eu darparu yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg 2018 a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar gyfer darparu gwasanaethau yng Nghymru.

Gwasanaethau Awtistiaeth i Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Uned Gyflawni'r Gwasanaeth Prawf yng Nghymru

Disgwylir i'r darparwr ddarparu ymyriadau i bobl ar brawf sy'n diwallu anghenion penodol y rhai sy'n byw gyda Chyflwr Sbectwm Awtistig, gan gynnwys defnyddio'r Gymraeg lle mae'r person yn dymuno ymgysylltu â'r gwasanaeth prawf yn Gymraeg.

Rhif PIN Hysbysiad Cyfarwyddyd Caffael: Cyhoeddir **04/2014** fel rhan o ddogfennau Gwahoddiad i Dendro y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Rydym yn cynnwys y gofyniad cyffredinol canlynol yn y fanyleb.

“Rhaid i'r Darparwr ddarparu'r Gwasanaethau mewn iaith neu fformat y mae'r bobl ar brawf yn gallu eu deall. Pan fo'r Gystadleuaeth Yn Ôl y Galw yn mynnu bod y Gwasanaethau'n cael eu darparu yng Nghymru, dylid darparu'r holl gyfarwyddiadau i adrodd yn Gymraeg yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder 2018 a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar gyfer darparu gwasanaethau yng Nghymru a sicrhau bod y gwasanaeth ei hun ar gael yn Gymraeg”.

Gwasanaethau Cyfryngol a Benodwyd gan GLITEF

Mae cytundebau fframwaith Gwasanaethau Cyfryngol a Benodwyd gan GLITEF yn darparu arbenigwyr cyfathrebu sy'n gweithio ar ran GLITEF i gefnogi pobl sy'n cymryd rhan mewn gwrandawriad llys neu driwlynlys. Mae cyfryngwyr yn darparu argymhellion diduedd i GLITEF am anghenion cyfathrebu penodol unigolyn ac yn amlinellu'r camau sydd eu hangen i'w cyflawni. Gall cyfryngwyr wedyn gefnogi'r person mewn gwrandawriad llys neu driwlynlys, neu mewn cynadleddau i baratoi ar gyfer gwrandawriad.

Mae cytundebau fframwaith y gwasanaethau cyfryngol yn cynnwys cymalau safonol Y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n mynnu bod cyflenwyr yn cydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a'r Cynllun Iaith Gymraeg 'yn union fel petai ef ei hun yw'r Awdurdod'. Oherwydd natur y gwasanaethau a'r farchnad gyflenwi gyfyngedig, gall cyflenwyr wrthod ceisiadau am wasanaethau nad ydynt yn rhan o'u meysydd arbenigedd neu eu capasiti neu eu gallu presennol.

Mae'r fframwaith Darparwyr Gwasanaeth Cymeradwy yn cynnwys dau ganolwr hunangyflogedig sy'n siarad Cymraeg ac sy'n arbenigo mewn darparu cefnogaeth i ddefnyddwyr llys a thriwlynlysoedd sy'n agored i niwed yng Nghymru. Mae GLITEF yn bwriadu gweithio gyda'i ddarparwyr gwasanaeth drwy gydol y cyfnod fframwaith cychwynnol hwn er mwyn cynyddu capasiti cyfryngu, gan gynnwys argaeledd cyfryngwyr sy'n siarad Cymraeg. Bydd cyflwyno contractau ffurfiol yn sicrhau bod gan GLITEF fynediad at ddigon o ddata i fesur y galw am y gwasanaethau hyn, a'n llwyddiant wrth ateb y galw hwnnw.

Dyrannu grantiau

Meini prawf llwyddiant:

Caiff grantiau eu dyfarnu yn unol â'r ymrwymadau a wnaed yn y Cynllun

Disgwylir i unrhyw sefydliad sy'n ymgeisio am grant ar gyfer gweithgareddau sy'n cynnwys cyflenwi gwasanaethau i bobl yng Nghymru ymdrin yn eu ceisiadau, lle bo hynny'n briodol, â sut y bwriadant ddarparu'r gwasanaethau hynny yn y Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg. Yna bydd hyn yn cael ei gynnwys fel un o'r amodau cyllido.

Er mwyn sicrhau bod gennym drefniadau llywodraethu cadarn a bod gwariant grant yn sicrhau gwerth am arian, sefydlodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder swyddogaeth her, y Panel Herio Grantiau. Mae'r Panel Herio Grantiau yn rhan annatod o lywodraethu grantiau a gwneud penderfyniadau ariannol ac fe'i mabwysiadwyd gan Swyddfa'r Cabinet fel arfer gorau.

Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi ac Uned Gomisiynu a Gweithredu Dioddefwyr a Thystion yn goruchwyllo'r prosesau ar gyfer dyrannu grantiau yn eu hardaloedd, gan gynnwys y swm cyffredinol sydd ar gael a sicrhau bod y grantiau'n cyd-fynd â blaenoriaethau strategol yr adran. Mae'r cystadlaethau'n cael eu cynnal drwy System E-dendro 'Jaggaer', sydd ar gael i unrhyw gyflenwr sydd wedi cofrestru. Mae cystadlaethau HMPPS yn cael eu hysbysebu gyda Clinks hefyd.

Er mwyn helpu i roi gwybod i ddarpar gynigwyr, bydd y ddogfen ddisgrifio sy'n cyd-fynd â phob hysbyseb yn nodi a fydd ystyriaethau Deddf yr Iaith Gymraeg yn berthnasol, a phryd. Pan gaiff ddyfarniad, ac os yw'n briodol, bydd derbynnydd y grant yn cael gwybod am ofynion y Weinyddiaeth Gyfiawnder y disgwylir iddo gydymffurfio â hwy, gan gynnwys pan fydd Cynllun Iaith

Gymraeg perthnasol y Weinyddiaeth Gyfiawnder neu Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yn rhoi gofynion perthnasol Deddf yr Iaith Gymraeg ar waith.

Ar gyfer 2021-22, cafodd cyllideb grantiau Gwasanaeth Prawf a Charchardai Ei Mawrhydi o £5.3m ei defnyddio i gefnogi parhad grantiau strategol a grantiau arloesi sy'n cyfrannu at nodau eang a blaenoriaethau penodol HMPPS. Mae'r rhaglen grantiau yn cael ei hysbysebu i bob corff yn y Sector Gwirfoddol, Cymunedol a Mentrau Cymdeithasol (VCSE) - sef cyrff yn y Trydydd Sector - yng Nghymru a Lloegr.

Hysbysebodd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi ei Raglen Grant Arloesi Newydd ar gyfer 2020-22 ym mis Hydref 2019, gyda'r cyfle'n agored i bob mudiad gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol yng Nghymru a Lloegr. Nododd y rhaglen un ar bymtheg o brosiectau newydd, a oedd i fod i ddechrau ar 1 Ebrill 2020 yn wreiddiol, ond sydd wedi cael eu gohirio oherwydd pandemig Covid-19. Mae pob un bellach wedi dechrau, gyda rhai newidiadau yn unol â chyfyngiadau Covid-19. O'r un ar bymtheg o ddyfarniadau, nid oes yr un prosiect sy'n gweithredu'n benodol mewn lleoliadau Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru, er bod y rhai sydd wedi derbyn grantiau wedi cael gwybod am ofynion y Cynllun Iaith Gymraeg lle bo hynny'n briodol.

Mae cyllid grant yn parhau i fod ar gael i nifer o fudiadau gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol ar sail tymor hwy i gefnogi'r nodau strategol ac i ddatblygu capasiti ar draws y sector. Bydd y gweithgarwch hwn a ariennir gan grantiau yn berthnasol i Gymru a Lloegr a, lle bo hynny'n rhesymol bosibl, bydd y rhai sy'n derbyn grantiau yn ceisio darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg lle bo angen. Mae yna hefyd siaradwr Cymraeg rhugl (ail iaith) o fewn Tîm Grantiau Gwasanaeth Prawf a Charchardai Ei Mawrhydi.

Ar gyfer 2021/22, mae'r Uned Comisiynu a Gweithredu Dioddefwyr a Thystion wedi rhoi grantiau o £7.66m i dderbynwyr yng Nghymru, i ddarparu gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr troseddau. Mae hyn yn cynnwys cyllid brys a ddarparwyd mewn ymateb i Covid-19 a mwy o alw am wasanaethau cymorth i ddioddefwyr.

4. Gweithredu, monitro ac adrodd

Meini prawf llwyddiant:

- a) *Polisiâu, mentrau a gwasanaethau i fod yn gyson â'r ymrwymïadau a wnaed yn y Cynllun Iaith Gymraeg*
- b) *Grŵp Cydlynwyr y Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi'i ehangu ac yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn o leiaf, gyda'r aelodau'n rhyngweithio'n rhithiol.*
- c) *Trefniadau yn eu lle i fonitro ac adrodd ar gynnydd cyrff y Weinyddiaeth Gyfiawnder, a restrir yn Atodiad A, o ran gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder.*
- d) *Mae gan staff drefniadau yn eu lle i fonitro p'un a yw darparwyr gwasanaethau'n cydymffurfio â threfniadau iaith Gymraeg sydd wedi'u cynnwys mewn cytundebau contractau.*

Roedd Cydlynwyr Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn parhau yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu'r Cynllun. Un elfen hollbwysig o'r rôl yw sicrhau bod Cynllun y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cael ei ddatblygu a'i roi ar waith yn briodol ar draws amrywiol feysydd busnes corfforaethol y Weinyddiaeth. Mae hynny'n cynnwys rhoi cyngor a chyfarwyddyd ac ymateb i geisiadau am wybodaeth neu roi eglurhad ynghylch polisi ac arferion y Weinyddiaeth mewn perthynas â'r Gymraeg. Ni chafodd Cydlynwyr y Cynllun unrhyw gwynion ffurfiol ynghylch y modd y gweithredwyd Cynllun y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn 2021-22.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn parhau i weithredu Grŵp Cydlynwyr Iaith Gymraeg ehangach o gysylltiadau sy'n gweithredu fel Cydlynwyr yr Iaith Gymraeg ar gyfer ei holl feysydd busnes. Mae'r Grŵp yn cyfarfod yn ffisegol neu'n rhithiol, neu gymysgedd o'r ddau, ddwywaith y flwyddyn.

Mae cylch gwaith y grŵp yn cynnwys y canlynol:

- Canolbwyntio ar faterion sy'n gysylltiedig â chyflwyno Cynllun Iaith Gymraeg Y Weinyddiaeth Gyfiawnder;
- Rhannu enghreifftiau o arferion gorau i helpu i godi ymwybyddiaeth a rhannu syniadau;
- Darparu fforwm i aelodau allu trafod a datrys materion sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â'r Gymraeg;
- Rhoi cydgefnogaeth i Gydlynwyr Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder a helpu i lywio cyfeiriad y polisi Iaith Gymraeg a dulliau llywodraethu yn y dyfodol ar draws ein Hasiantaethau Gweithredol.

Mae'r aelodau'n defnyddio'r Grŵp i rannu gwybodaeth a syniadau er mwyn gwella'r broses o wneud penderfyniadau. Os oes pryderon neu gamddealltwriaeth ynghylch polisi ac ymarfer yr iaith Gymraeg, bydd y Cydlynwyr yn mynd ar ôl y rhain ar gyfer aelodau a staff perthnasol mewn modd cymesur er mwyn sicrhau datrysiad boddhaol.

Yng nghyfarfod mis Hydref 2021, buom yn trafod rhuglder yn y Gymraeg ar draws y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Yng nghyfarfod mis Mawrth 2022, fe wnaethom adolygu digwyddiad Dydd Gŵyl Dewi (a nodwyd uchod), lle roeddem yn dathlu'r iaith Gymraeg ar draws teulu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Buom hefyd yn trafod cwestiwn rhuglder yn y Gymraeg ar gyfer SOP (hyb ar-lein y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer adnoddau dynol) gyda gwesteion o'r tîm Adnoddau Dynol.

Rydym wedi cael nifer o ychwanegiadau newydd a newidiadau i'r Grŵp yn ein cyfarfodydd, sy'n dangos bod cynnydd graddol yn parhau yn y diddordeb mewn materion Cymreig ar draws y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Yn unol ag arferion gorau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder o ran gweithio'n fwy doeth, mae cynrychiolwyr wedi defnyddio fideo-gynadledda ar Teams i gymryd rhan.

Rhwng cyfarfodydd, mae gan y Grŵp fforwm drafod rithiol *ad hoc* ar faterion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg, i rannu cyngor rhwng cydweithwyr perthnasol y Weinyddiaeth Gyfiawnder, yn enwedig ynghylch pryd y bydd angen gwasanaethau cyfieithu o bosibl.



© Hawlfraint y Goron 2023

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon ewch i, nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.